OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 44

# Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020

## RHAN 4

### Gorfodi a chosbau

**Pwerau swyddogion gorfodi**

**12.**—(1) Caiff swyddog gorfodi—

(a) gwneud unrhyw ymholiadau, arsylwi unrhyw weithgaredd neu broses, a chymryd ffotograffau;

(b) arolygu unrhyw eitem, cynhwysydd, cyfarpar, offer neu gofnodion o unrhyw ddosbarth yr ymddengys i'r swyddog gorfodi eu bod yn berthnasol at ddibenion yr ymchwiliad, a chaiff wneud copïau o unrhyw gofnodion neu ei gwneud yn ofynnol i gopïau gael eu gwneud a mynd ag unrhyw gofnodion ymaith fel y bo'n rhesymol ofynnol;

(c) marcio unrhyw eitem at ddibenion adnabod;

(d) gwneud dangos unrhyw label, unrhyw ddogfen neu unrhyw gofnod (ar ba bynnag ffurf y caiff ei chadw neu ei gadw) yn ofynnol;

(e) arolygu a gwneud copi o unrhyw label, unrhyw ddogfen neu unrhyw gofnod, neu wneud copi o ran ohoni neu ohono;

(f) cael mynediad i unrhyw gyfrifiadur, ac arolygu a gwirio'r data ar unrhyw gyfrifiadur, a'i weithrediad;

(g) os oes gan y swyddog gorfodi reswm i gredu bod person yn torri'r Rheoliadau hyn neu Reoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE, ac y gallai'r data fod yn berthnasol i'r toriad, ymafael mewn unrhyw offer cyfrifiadurol a'i gadw at ddiben copïo'r data neu, os nad yw wedi bod yn bosibl cynnal arolygiad digonol yn y fangre, at ddiben ei arolygu ymhellach;

(h) os oes gan y swyddog gorfodi reswm i gredu bod person yn torri'r Rheoliadau hyn neu Reoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE, ac y gallai cofnodion penodol fod yn berthnasol i'r toriad, ymafael yn y cofnodion a'u cadw.

(2) Rhaid i swyddog gorfodi—

(a) dangos tystiolaeth o awdurdodiad pan ofynnir iddo wneud hynny;

(b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl—

(i) darparu i'r person yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am unrhyw gofnodion yr eir â hwy ymaith o unrhyw fangre dderbyneb ysgrifenedig sy'n nodi'r cofnodion hynny, a

(ii) ar ôl penderfynu nad oes eu hangen mwyach, dychwelyd unrhyw beth yr eir ag ef ymaith, ar wahân i gofnodion neu bethau eraill sydd i'w defnyddio fel tystiolaeth mewn achos llys.